# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**22 IONAWR 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
Z.A. Evans, Uwch Dechnegydd (Cynnlunio Cyswyllt);
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 11:10am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H. I. Jones

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnol.

## 3. W/37267 - CODI 2 BRESWYL 3 YSTAFELL WELY (1 FFORDDIADWY, 1 FARCHNAD AGORED) AR DIR GERLLAW LLYS BRIALLU, SARNAU, BANCYFELIN, SA33 5EA

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddid yn gohirio ystyried y cais hwn tan gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

4. **RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/37968** | **Dymchwel y wal derfyn frics a'r sied bresennol, a gosod garej newydd sy'n cynnwys lle storio, stiwdio a gweithdy yn eu lle, er mwyn adeiladu man ategol ychwanegol yn 1 Heol y Bailey, Cydweli, SA17 5AZ**<br><br>Nododd y Pwyllgor y cyflwynwyd y cais hwn fel Cais Cynllunio Llawn a Chaniatâd Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, rhannwyd y cais hwn yn y broses gofrestru felly roedd cais cyfochrog (S/37981) ar waith gan fod y cynnig yn cynnwys dymchwel wal brics sylweddol ar hyd wyneb y ffordd.<br><br>Dywedodd yr aelod lleol wrth y Pwyllgor nad oedd hi yn bersonol wedi gwneud penderfyniad eto o ran canlyniad y cais hwn a byddai'n gwrando ar y cais a gyflwynwyd ger bron y Pwyllgor heddiw. Fodd bynnag, cyflwynodd sylwadau a oedd yn adleisio'r pryderon yr oedd pobl wedi'u cyfeirio ati hi a oedd yn bennaf yn gwrthwynebu'r cais, ac hefyd yn ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, fel a ganlyn:-<br><br>• Pryderon ynghylch diogelwch priffyrdd/cerddwyr;<br>  - parcio;<br>  - gweledEdd.<br>• Preifatrwydd/amwynder;<br>  - Codwyd pryderon ynghylch uchder y talcen cefn sy'n edrych dros yr ardd breifat.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |
| **S/37981** | **Dymchwel y wal derfyn frics a'r sied bresennol, a gosod garej newydd sy'n cynnwys lle storio, stiwdio a gweithdy yn eu lle, er mwyn adeiladu man ategol ychwanegol yn 1 Heol y Bailey, Cydweli, SA17 5AZ**<br><br>Nododd y Pwyllgor fod y cais hwn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth a oedd i'w ystyried ochr yn ochr â'r cais Cynllunio Llawn (S/37968) uchod. |

5. **RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amodau a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y'u manylwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol, y rhoddodd y Pwyllgor Cynllunio ganiatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog ar 13 Rhagfyr, 2018, yn amodol ar newid amod 6 i ddatgan:**

***'Rhaid i'r defnydd a ganiateir trwy hyn ddigwydd rhwng 06:00 a 21:00 ddydd Llun i ddydd Gwener; rhwng 06:00 a 16:00 ar ddydd Sadwrn a dim o gwbl ar ddydd Sul, Gwyliau Cyhoeddus a Gwyliau Banc';***

| | |
|---|---|
| **W/36131** | **Newid defnydd rhannol arfaethedig i ardal fach mewn ffatri/gweithdy ffrâm bren i'w defnyddio fel gofod campfa ffitrwydd a chwilbedlo (i'w osod). Newid defnydd rhan o'r cae cyfagos i fod yn faes parcio pwrpasol at ddefnydd y gampfa a chwilbedlo arfaethedig yn y gweithdy, Bwlch y Domen Isaf, Pant y Bwlch, Castellnewydd Emlyn, SA38 9JF**<br><br>[Sylwer: Nid oedd y Cynghorwyr J. Gilasbey, G.B. Thomas a J. Prosser yn bresennol yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 ac felly nid oeddent wedi cymryd rhan yn y penderfyniad nac wedi pleidleisio ar benderfyniad y cais.]<br><br>Nododd y Pwyllgor fod yr amodau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio yn adlewyrchu sylwadau'r Pennaeth Trafnidiaeth, y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed a ddaeth i law mewn ymateb i'r cais, ynghyd â'r angen i sicrhau gwaith tirlunio a draenio addas, a barnwyd eu bod yn briodol i gael eu gosod ar y caniatâd cynllunio.<br><br>Cafwyd sylw gan aelod lleol yn cefnogi'r amodau drafft a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch amod 6 sy'n nodi mai 7:00am yw'r amser agor. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried diwygio Amod 6 er mwyn nodi amser agor o 6:00am oherwydd gallai amser hwyrach gael effaith ar y busnes drwy eithrio'r cwsmeriaid hynny sy'n mynd i'r gampfa cyn teithio i'r gwaith. |

6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:

6.1. 27 TACHWEDD 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018, gan eu bod yn gywir.**

6.2. 13 RHAGFYR 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 13 Rhagfyr, 2018 gan eu bod yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ____________________________ | ____________________ |
| CADEIRYDD | DYDDIAD |